**TRWY GYFLWYNO'R ADRODDIAD HWN I SWYDDFA'R CABINET, RYDW I, (DIRECTOR NAME) (DIRECTOR TITLE) YN CADARNHAU BOD YR AELOD(AU) CABINET PERTHNASOL WEDI EU BRIFFIO AR YR ADRODDIAD HWN**

# CYNGOR CAERDYDD
# CARDIFF COUNCIL

# CYFARFOD CABINET: 17 Rhagfyr 2020

---

## CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION: LLEOEDD MEWN YSGOLION CYNRADD I WASANAETHU CATHAYS A RHANNAU O GABALFA, Y MYNYDD BYCHAN, YSTUM TAF A PHLASNEWYDD

## ADDYSG, CYFLOGAETH A SGILIAU (Y CYNGHORYDD SARAH MERRY)

**EITEM AGENDA:**

---

**Rheswm dros yr Adroddiad hwn**

1. Galluogi'r Cabinet i ystyried argymhelliad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion ar gyfer darpariaeth ysgol gynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.

2. Cynigir:

   - Cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan o tua 0.9 Dosbarth Mynediad (DM) (192 lle) i 1.5 DM (315 lle) o fis Medi 2022 a rhoi'r lleoedd ysgol ychwanegol yn Ysgol Gynradd Allensbank yn y lle cyntaf;

   - Cynnal Ysgol Gynradd Allensbank fel ysgol 1DM (210 lle), gan gadw darpariaeth ymyrraeth gynnar meithrin ac Anghenion Dysgu Ychwanegol, o fis Medi 2022.

3. Ystyrir hefyd cynnydd dros dro yn Nifer Derbyn Ysgol Mynydd Bychan, o 30 lle i 45 lle derbyn ym Mlwyddyn Dderbyn 2021/2022 os nad yw'n bosibl derbyn plant yn yr ardal yn yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg lleol.

**Cefndir**

4. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth Cymraeg 2050 yn 2017, sy’n nodi gweledigaeth o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

5. Erbyn 2050, y nod yw y bydd 40 y cant o blant (ym mhob grŵp blwyddyn) mewn addysg Cyfrwng Cymraeg. O blith y rhai sydd mewn addysg cyfrwng Saesneg, y dybiaeth yw y bydd hanner y rhai sy'n gadael yr ysgol yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

6. Mae'r strategaeth yn rhagdybio, yn genedlaethol, y bydd 70 y cant o bobl ifanc 15 oed yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2050, sy'n cynnwys 40 y cant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a 30 y cant mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

7. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi newidiadau trawsnewidiol sy'n cynnwys:

- Ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar er mwyn hwyluso trosglwyddo llyfn i addysg cyfrwng Cymraeg.
- Cynyddu cyfran pob grŵp blwyddyn ysgol sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg o 22 y cant yn genedlaethol yn 2015/16 i 25-29 y cant erbyn 2031, ac yna i 40 y cant erbyn 2050.

8. Mae Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn nodi meysydd blaenoriaeth i alluogi teuluoedd, plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg. Y nod yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yr iaith yng Nghaerdydd yn ogystal â hybu defnydd o’r Gymraeg ledled y ddinas.

9. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) yn rhan annatod o strategaeth 5 mlynedd Caerdydd Ddwyieithog y Cyngor ac mae'n cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

10. Mae'r WESP presennol ar gyfer y cyfnod 2017-2020 ac mae'n seiliedig ar saith canlyniad allweddol y cynllun strategol blaenorol o 2014.

11. I gydnabod effaith pandemig Covid-19, bydd rheoliadau diwygiedig WESP yn dod i rym ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r prif newidiadau'n cynnwys symud dyddiad cyflwyno drafft WESP i’r 31ain o Ionawr 2022 ar yr hwyraf a gweithredu cynllun newydd nid hwyrach na mis Medi 2022.

12. Bydd y Cynllun WASP presennol yn aros mewn grym tan y dyddiad hwnnw.

13. Mae’r Cyngor yn cydnabod bod y system addysg yn elfen allweddol wrth sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac wrth greu siaradwyr newydd.

14. Er mwyn i Gaerdydd gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru, byddai angen i ni gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg 15.9%, hynny yw o 36,375 (cyfrifiad 2011) i 42,584 (cyfrifiad 2021). Cyflawnwyd 58% o hyn trwy gynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio addysg cyfrwng Cymraeg.

15. Llwyddodd y Cyngor i sicrhau arian trwy gynllun grant cyfalaf Cynyddu'r Ddarpariaeth Gyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru. Y diben yw cefnogi buddsoddiadau cyfalaf sy'n hwyluso twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg a defnyddio'r Gymraeg.

16. Roedd y cais llwyddiannus yn cynnwys cynnig i ad-drefnu darpariaeth gynradd yn ardal canol Caerdydd ac ehangu nifer y lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg.

**Materion**

**Digonolrwydd lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ledled y ddinas**

17. Newidiodd nifer a chanran y plant sy'n mynd i mewn i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn fawr rhwng 2009/10 a 2016/17. Yn yr un modd â'r boblogaeth gyffredinol, roedd nifer y plant oedd yn mynd i mewn i addysg Gymraeg yn cynyddu. Gwelwyd y nifer uchaf o blant yn mynd i mewn i ddosbarthiadau derbyn cyfrwng Cymraeg yn y ddinas yn 2016/17, sef 744 o ddisgyblion.

18. Yn dilyn gostyngiad yn y gyfradd genedigaethau yn 2012/13, bu gostyngiad yn nifer y disgyblion a dderbyniwyd i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ledled y ddinas. Ym mis Ionawr 2020, roedd 683 o blant wedi cofrestru mewn dosbarthiadau Derbyn cyfrwng Cymraeg ledled y ddinas, o'u cymharu â'r 840 lle a oedd ar gael.

19. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y derbyniadau i'r grŵp oedran Derbyn ym mis Medi 2020 gyda 764 o blant yn mynd i Ddosbarth Derbyn cyfrwng Cymraeg. Dyma'r nifer derbyn uchaf i ddosbarthiadau Derbyn cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd hyd yma a hon hefyd yw'r ganran uchaf (tua 18%) o'r boblogaeth disgyblion sydd wedi cofrestru mewn dosbarthiadau Derbyn cyfrwng Cymraeg.

20. Rhagwelir y bydd nifer y bobl sy'n cael addysg gynradd ledled y ddinas rhwng mis Medi 2021 a mis Medi 2023 yn lleihau'n sylweddol o ganlyniad i ostyngiad pellach yn y gyfradd genedigaethau a newidiadau i batrymau mudo, y ceir tystiolaeth o hyn mewn data a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a setiau data cofrestru meddygon teulu diweddaraf y GIG. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau i'r boblogaeth yn gyson ym mhob rhan o'r ddinas.

21. Ym mis Ionawr 2020, câi tua 16% o ddisgyblion oedran cynradd a 15% o ddisgyblion oedran uwchradd yng Nghaerdydd addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

22. Ym mis Medi 2020, roedd tua 18% o'r lleoedd mewn ysgolion cynradd oedran Derbyn a oedd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ysgolion dwy ffrwd.

23. Ers 2012 mae'r Cyngor wedi cynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn sylweddol gan ehangu Ysgol Gymraeg

Treganna ac Ysgol Glan Morfa, a darparu adeiladau newydd ar gyfer nifer o ysgolion, gan gynnwys Ysgol Glan Ceubal a sefydlu Ysgol Hamadryad.

24. Sefydlodd y Cyngor Ysgol Glan Ceubal yn 2008 er mwyn ateb y galw gormodol a ddeuai o ddalgylchoedd cyfagos Ysgol Mynydd Bychan, Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd ac Ysgol Pencae. Agorwyd dosbarth meithrin yn Ysgol Glan Ceubal ym mis Medi 2016 ac, yn dilyn ymgynghoriad, sefydlwyd dalgylch i'r ysgol o rannau o ddalgylchoedd Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd ac Ysgol Mynydd Bychan. Agorodd adeilad newydd Ysgol Glan Ceubal ym mis Medi 2018 a derbyniodd yr ysgol 30 o ddisgyblion y mis hwnnw.

25. Sefydlwyd Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad yn 2016 i wasanaethu cymunedau Butetown a de Grangetown. Cafodd yr ysgol ei lleoli dros dro ar safle Ysgol Gynradd Parc Ninian yn Grangetown, yn nalgylch Ysgol Gymraeg Pwll Coch. Ym mlwyddyn ysgol 2018/19, trosglwyddodd yr ysgol i'w safle presennol yn Butetown sydd yn nalgylch Ysgol Mynydd Bychan.

26. Yn dilyn ymgynghoriad, sefydlwyd dalgylch ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Hamadryad o rannau o ddalgylchoedd Ysgol Gymraeg Pwll Coch ac Ysgol Mynydd Bychan o fis Medi 2021.

27. Mae’r Cyngor hefyd wedi ehangu Ysgol y Wern ac wedi cymeradwyo cynigion darparu ysgolion cynradd dwy ffrwd er mwyn gwasanaethu camau cynnar datblygiad Plasdŵr.

28. Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi targedau ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn strategaeth Cymraeg 2050, bydd angen darparu lleoedd ychwanegol mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg er mwyn parhau i symud ymlaen tuag at y targed, sef miliwn o siaradwyr Cymraeg.

29. Dengys tystiolaeth o'r cynnydd blaenorol mewn addysg cyfrwng Cymraeg fod darparu lleoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn arwain at gynnydd yn nifer y lleoedd sy'n cael eu cymryd ar lefel Derbyn.

**Ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu'r ardal**

30. Gwasanaethir ardaloedd Cathays, Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd gan nifer o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg.

31. Mae Ysgol Mynydd Bychan yn gwasanaethu dalgylch sy'n cynnwys cymuned Cathays a rhannau o gymunedau Gabalfa, y Mynydd Bychan a Phlasnewydd.

32. Mae dalgylchoedd Ysgol y Wern, Ysgol Glan Ceubal ac Ysgol Melin Gruffydd ger dalgylch Ysgol Mynydd Bychan.

33. Mae dalgylchoedd cyfunol Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Albany ac Ysgol Gynradd Gladstone, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio dalgylch Ysgol Uwchradd Cathays, yn gwasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Llandaf a Phlasnewydd,

34. Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Fonica ac Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff hefyd yn gwasanaethu'r cymunedau hyn.

35. Ysgol Glantaf yw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg uwchradd sy'n gwasanaethu'r ardal ac Ysgol Uwchradd Cathays yw'r ddarpariaeth uwchradd gymunedol cyfrwng Saesneg. Gwasanaethir yr ardal hefyd gan Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi ac Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant.

36. Ceir map yn nodi lleoliad yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a'u dalgylchoedd (o fis Medi 2021) yn Atodiad 1.

37. Ceir map yn nodi lleoliad a dalgylchoedd yr ysgolion cyfrwng Saesneg (o fis Medi 2021) yn Atodiad 2.

**Cadarnhau'r galw lleol am leoedd ysgol**

38. Er mwyn cyfrifo'r galw tebygol am leoedd mewn ysgolion, defnyddiwyd tueddiadau hanesyddol sy'n benodol i ddalgylchoedd ysgolion sefydledig.

39. Yr unedau daearyddol sydd fwyaf addas i ddadansoddi'r galw am leoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yw dalgylchoedd ar wahân Ysgol Mynydd Bychan, Ysgol y Wern, Ysgol Glan Ceubal ac Ysgol Melin Gruffydd (amgaeir y map yn Atodiad 1).

40. Yr unedau daearyddol sydd fwyaf addas i ddadansoddi'r galw am leoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yw dalgylchoedd ar wahân Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Albany ac Ysgol Gynradd Gladstone (amgaeir y map yn Atodiad 2).

41. Mae'r paragraffau canlynol yn nodi manylion y dalgylchoedd hyn, y data a ddefnyddiwyd a'r fethodoleg a weithredwyd. Mae'r galw a ragwelir yn ystyried y galw cymesur diweddar am leoedd a data poblogaeth cyn ysgol a ddarparwyd gan y GIG. Mae'r galw a ragwelir yn ystyried y setiau data hyn, a ffactorau mewn gwybodaeth gyd-destunol arall.

**Nifer y lleoedd a dderbynnir yn bresennol**

**Cyfrwng Cymraeg**

42. Er bod y niferoedd a dderbynnir yn Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol y Wern wedi aros ar lefelau uchel ar y cyfan, gostyngodd y nifer a dderbyniwyd yn Ysgol Glan Ceubal ac Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd yn 2019/20 ond maent wedi cynyddu ym mis Medi 2020.

43. Mae Tabl 1 dros y dudalen yn nodi'r galw diweddar am leoedd Derbyn mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu canol/

gogledd Caerdydd, a'r galw a ragwelir, sy'n adlewyrchu’r niferoedd derbyn diweddar a phoblogaethau'r dyfodol ym mhob ardal.

**Tabl 1: Nifer y lleoedd a dderbynnir yn ddiweddar ac a ragamcennir mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg o blith disgyblion sy'n byw yn nalgylchoedd Ysgol Glan Ceubal, Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol y Wern**

| | | **Data CYBLD** | | | | | **Amcanestyniad o nifer y lleoedd a dderbynnir mewn unrhyw ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dalgylch** | **Lleoedd** | **2015/ 2016** | **2016/ 2017** | **2017/ 2018** | **2018/ 2019** | **2019/ 2020** | **2020/ 2021** | **2021/ 2022** | **2022/ 2023** | **2023/ 2024** |
| Ysgol Glan Ceubal | 30 | 19 | 24 | 16 | 25 | 12 | 17 | 16 | 14 | 15 |
| Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd | 60 | 46 | 55 | 61 | 55 | 37 | 47 | 39 | 43 | 33 |
| Ysgol Mynydd Bychan | 30 | 41 | 31 | 38 | 38 | 35 | 38 | 32 | 34 | 36 |
| Ysgol y Wern | 90 | 73 | 73 | 81 | 90 | 87 | 94 | 87 | 83 | 85 |
| Cyfanswm | 210 | 179 | 183 | 196 | 208 | 171 | 196 | 174 | 175 | 169 |
| Lleoedd Dros Ben | | 31 | 27 | 14 | 2 | 39 | 14 | 36 | 35 | 41 |
| % y lleoedd dros ben | | 14.8% | 12.9% | 6.7% | 1.0% | 18.6% | **6.5%** | **17.4%** | **16.8%** | **19.4%** |

44. Mae'r amcanestyniadau uchod yn seiliedig ar ddata diweddaraf CYBLD (Ionawr 2020) ac nid ydynt yn ystyried y cynnydd a fu yn y galw am leoedd Derbyn ym mlwyddyn ysgol 2020/2021. Nid yw data CYBLD ar gyfer blwyddyn ysgol 2020/21 ar gael eto. Mae'r galw a nodir gan yr amcanestyniadau uchod yn nalgylchoedd Ysgol Glan Ceubal ac Ysgol Melin Gruffydd yn debygol o fod tua 8-12 yn rhagor o ddisgyblion pan fydd data CYBLD Ionawr 2021 ar gael, a disgwylir i'r lleoedd dros ben ehangach leihau gan tua 4-5%.

45. Er bod digon o ddarpariaeth ar draws yr ardal ehangach i ddarparu ar gyfer twf addysg cyfrwng Cymraeg yn y tymor byr, ni fyddai lefel ddisgwyliedig y lleoedd dros ben yn ddigon i gynyddu'r niferoedd a dderbynnir i addysg cyfrwng Cymraeg yn sylweddol yn y tymor hwy er mwyn cyrraedd targedau Cymraeg 2050.

46. Er y gallai newidiadau i ddalgylchoedd wella cydbwysedd lleoedd, ni fyddai hyn yn cynnal twf hirdymor.

**Cyfrwng Saesneg**

47. Mae'r nifer y lleoedd a dderbynnir mewn dosbarthiadau Derbyn cyfrwng Saesneg yn nalgylchoedd Ysgolion Cynradd Albany, Allensbank a Gladstone wedi amrywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

48. Mae Tabl 2 dros y dudalen yn nodi'r galw diweddar am leoedd Derbyn mewn ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg yn nalgylch Ysgol Uwchradd Cathays a'r galw a ragwelir, sy'n adlewyrchu'r nifery lleoedd a dderbynnir yn ddiweddar a phoblogaethau'r dyfodol ym mhob ardal.

**Tabl 2: Nifer y lleoedd a dderbynnir yn ddiweddar ac a ragfynegir mewn ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg o blith disgyblion sy'n byw yn nalgylchoedd Ysgol Gynradd Albany, Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone**

| | | **CYBLD** | | | | | **Amcanestyniad** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dalgylch** | **Lleoedd** | **2015/ 2016** | **2016/ 2017** | **2017/ 2018** | **2018/ 2019** | **2019/ 2020** | **2020/ 2021** | **2021/ 2022** | **2022/ 2023** | **2023/ 2024** |
| Albany | 60 | 52 | 45 | 49 | 46 | 46 | 44 | 38 | 35 | 35 |
| Allensbank | 45 | 41 | 31 | 40 | 42 | 37 | 33 | 34 | 36 | 39 |
| Gladstone | 30 | 34 | 27 | 36 | 25 | 30 | 33 | 24 | 26 | 22 |
| Cyfanswm | 135 | 127 | 103 | 125 | 113 | 113 | 109 | 96 | 96 | 96 |
| Lleoedd Dros Ben | | 8 | 32 | 10 | 22 | 22 | 26 | 39 | 39 | 39 |
| % y lleoedd dros ben | | 5.9% | 23.7% | 7.4% | 16.3% | 16.3% | **19.0%** | **28.9%** | **28.9%** | **28.8%** |

## Rhagfynegiad am y tro o'r galw am leoedd yn y Dosbarth Derbyn

49. Mae'r gwaith a wnaed i amcanu'r galw tebygol am ddarpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn dangos y bydd tua 6% – 19% o leoedd dros ben y gyffredinol mewn addysg cyfrwng Cymraeg a thua 19% – 29% mewn cyfrwng Saesneg yn seiliedig ar dai presennol, os nad oes cynnydd neu ostyngiad yn newisiadau rhieni.

50. Mae Atodiad 3 yn manylu ar y capasiti presennol a'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig wrth fynd i mewn i bob ysgol gynradd, a nifer y disgyblion sydd wedi cofrestru ym mhob grŵp blwyddyn.

51. Ym mis Medi 2020, roedd tua 18% o'r lleoedd oedran Derbyn mewn ysgolion cynradd a oedd ar gael yn rhai mewn addysg cyfrwng Cymraeg Er mwyn gwneud cynnydd tuag at darged cenedlaethol Llywodraeth Cymru bod 25 - 29% o ddisgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2031, mae angen cynyddu nifer y disgyblion sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg yn oedran Derbyn.

## Gwybodaeth am Ysgolion

### Ysgol Mynydd Bychan

52. Mae Ysgol Mynydd Bychan ar safle 0.2 hectar ar New Zealand Road, Caerdydd CF14 3BR.

53. Capasiti cyhoeddedig yr ysgol yw 192 o leoedd (Derbyn - Blwyddyn 6) dros un bloc. Mae'r ysgol hefyd yn gweithredu darpariaeth feithrin 64 lle.

54. Nid oes digon o le ar y safle i ganiatáu ar gyfer ehangu'r ysgol.

55. Cafodd yr ysgol arolygiad gan Estyn ym mis Tachwedd 2015 a’i barnwyd yn dda (llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig yn gofyn am welliant sylweddol) gyda rhagolygon ar gyfer gwella hefyd yn cael eu nod fel da.

56. Ym mhroses Categoreiddio Ysgolion diweddaraf Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, cafodd yr ysgol ei chategoreiddio yn Wyrdd (ysgol effeithiol iawn sy’n cael ei rhedeg yn dda, sydd ag arweinyddiaeth gref ac sy’n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella).

**Safle Ysgol Gynradd Albany**

57. Mae’r ysgol ar safle 0.4 hectar ar Albany Road, Caerdydd CF24 3RQ. Mae'r ysgol tua 1.1 milltir o Ysgol Mynydd Bychan.

58. Capasiti cyfrifedig Ysgol Gynradd Albany yw 420 o leoedd ar draws tri bloc. Mae'r ysgol hefyd yn gweithredu darpariaeth feithrin 64 lle.

59. Mae’r nifer dderbyn wedi bod yn gyson uchel ac mae’r ysgol yn gweithredu'n agos at gapasiti llawn ar hyn o bryd.

60. Cafodd yr ysgol arolygiad gan Estyn ym mis Tachwedd 2012 a’i barnwyd yn dda (llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig yn gofyn am welliant sylweddol) gyda rhagolygon ar gyfer gwella hefyd yn cael eu nod fel da.

61. Yn y Categoreiddio Ysgolion diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, cafodd yr ysgol ei chategoreiddio fel Melyn (ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod lle y mae angen iddi wella).

**Safle Ysgol Gynradd Allensbank**

62. Mae Ysgol Gynradd Allensbank ar safle 0.5 hectar ar Stryd Llanisien, Caerdydd CF14 3QE. Mae'r ysgol tua 0.2 milltir o Ysgol Mynydd Bychan.

63. Capasiti cyhoeddedig Ysgol Gynradd Allensbank yw 315, ar draws adeiladau babanod ac iau ar wahân. Mae'r ysgol hefyd yn gweithredu darpariaeth feithrin 64 lle a dosbarth ymyrraeth gynnar Lleferydd ac Iaith ar gyfer hyd at 8 disgybl o'r Cyfnod Sylfaen.

64. Gall yr ysgol, fodd bynnag, ddal hyd at 420 o ddisgyblion ynghyd â meithrinfa, neu hyd at 360 o ddisgyblion ynghyd â darpariaeth feithrin a Dosbarth Ymyrraeth Gynnar.

65. Mae nifer derbyn yn yr ysgol wedi bod yn gyson is na nifer y lleoedd sydd ar gael gyda'r ysgol yn gweithredu gyda chapasiti dros ben o tua 41%, o'i gymharu â'i chapasiti cyhoeddedig o 315 o leoedd (Ionawr 2020).

66. Byddai capasiti a ffurfwedd y safle yn caniatáu darpariaeth ychwanegol ar y safle.

67. Barnodd arolygiad gan Estyn ym mis Ionawr 2020 fod safonau, lles ac agweddau'r ysgol at brofiadau dysgu, addysgu a dysgu, cymorth gofal ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda.

68. Yn y Categoreiddio Ysgolion diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, cafodd yr ysgol ei chategoreiddio fel Melyn (ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod lle y mae angen iddi wella).

**Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Santes Fonica**

69. Mae Ysgol Gynradd Gladstone ar yr un safle 0.5 hectar ag Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru ar Whitchurch Road, Caerdydd CF14 3JL tua 0.4 milltir o Ysgol Mynydd Bychan.

70. Mae Ysgol Gynradd Gladstone yn defnyddio'r adeilad iau gyda chapasiti cyhoeddedig o 210 o leoedd. Mae'r galw am leoedd wedi amrywio ac mae'r ysgol yn gweithredu ar hyn o bryd gyda 15% o'r lleoedd dros ben.

71. Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Santes Fonica yn defnyddio'r adeilad iau gyda chapasiti cyhoeddedig o 146 o leoedd. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn gweithredu gyda thua 3.4% o'r lleoedd dros ben.

72. Barnodd arolygiad gan Estyn ym mis Chwefror 2014 fod perfformiad Ysgol Gynradd Gladstone yn ddigonol (roedd y cryfderau'n fwy na'r meysydd i'w gwella, gyda rhagolygon gwella yn cael eu barnu fel da). Barnodd ymweliad monitro dilynol ym mis Ebrill 2015 fod yr ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran y materion lle roedd camau gweithredu a chafodd ei thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen eu monitro gan Estyn.

73. Yn y Categoreiddio Ysgolion diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, cafodd Ysgol Gynradd Gladstone ei chategoreiddio fel Melyn (ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod lle y mae angen iddi wella).

74. Barnodd arolygiad gan Estyn ym mis Ebrill 2019 fod safonau, lles ac agweddau'r ysgol at brofiadau dysgu, addysgu a dysgu, cymorth gofal ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Santes Fonica yn dda.

75. Ym mhroses Categoreiddio Ysgolion diweddaraf Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, cafodd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru'r Santes Fonica ei chategoreiddio yn Wyrdd (ysgol effeithiol iawn sy'n cael ei rhedeg yn dda, sydd ag arweinyddiaeth gref ac sy'n eglur o ran ei blaenoriaethau gwella).

**Cydbwyso darpariaeth ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg**

76. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i ddatblygu ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg.

77. Fel y nodir ym mharagraffau 31 a 32 mae pedair ysgol gynradd Gymraeg yn gwasanaethu'r ardal ehangach yng ngogledd/ canol Caerdydd.

78. O'r rhain, mae Ysgol Mynydd Bychan wedi rhagweld y bydd 32-36 o ddisgyblion yn dechrau yn y Dosbarth Derbyn os yw canran y plant yn ei dalgylch yn parhau i fod yn 15.6%, yn ôl pwysoli'r nifer dderbyn gyfartalog ym mlynyddoedd cyfrifiad 2018, 2019 a 2020.

79. Roedd y galw am leoedd o ddalgylch Ysgol Mynydd Bychan mewn Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2020 yn fwy na'r ddarpariaeth 0.9DM sydd ar gael. Byddai derbyn pob disgybl o'r dalgylch a oedd wedi nodi Ysgol Mynydd Bychan fel dewis cyntaf yn gofyn i'r ysgol weithredu ar tua 1.3DM, er bod cyfanswm y galw am leoedd cyfrwng Cymraeg o tua 1.5DM yn dangos galw cynyddol am leoedd yn ei dalgylch nad yw wedi'i ddilysu eto yn nata cyfrifiad CYBLD.

80. Rhagwelir gostyngiad yng nghyfanswm nifer y disgyblion ledled y ddinas sy'n mynd i addysg gynradd o ganlyniad i ostyngiad yn y gyfradd genedigaethau rhwng mis Medi 2021 a 2023. Byddai hyn yn caniatáu i gyfran uwch o boblogaeth disgyblion Caerdydd gofrestru ar gyfer addysg gynradd cyfrwng Cymraeg. Gallai cyfanswm nifer y lleoedd Cymraeg sydd ar gael adeg mynediad i addysg gynradd ledled y ddinas gynnig lle felly i tua 22% o'r boblogaeth ddisgyblion a ragwelir yn 2022 a 2023. Mae digon o gapasiti o fewn y sector cynradd cyfrwng Cymraeg ledled y ddinas i ganiatáu cynnydd sylweddol yn y nifer dderbyn, ond mewn rhai rhannau o'r ddinas dim ond drwy newidiadau i ddalgylchoedd ysgolion neu drwy gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael y gellid cydbwyso unrhyw gynnydd pellach yn y galw.

81. Rhaid i'r cynigion a gyflwynir sicrhau bod twf ysgolion yn gynaliadwy, ac mae'n rhaid lleihau'r effaith negyddol bosibl ar ysgolion eraill.

82. Dangosodd Tabl 1 y bydd galw o hyd am leoedd yn y dosbarth derbyn cyfrwng Cymraeg o ddalgylch Ysgol Mynydd Bychan sy'n fwy na 1DM os yw cyfran gymharol o boblogaeth y dalgylch sy'n dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod tua 15.6%. Mae Tabl 3 (isod) yn nodi rhagolygon ar gyfer y dalgylch hwn gan ystyried y niferoedd derbyn diweddaraf (17.9%), a hefyd twf blynyddol yn y galw gan un pwynt canran o 17.9% i 20.9%.

**Tabl 3: Rhagamcan o'r galw am leoedd mewn dosbarthiadau Derbyn cyfrwng Cymraeg, o blith plant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Mynydd Bychan, 2020 i 2024**

| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y boblogaeth | 243 | 203 | 216 | 229 |
| Y galw a ragwelir: 15.6% | 38 | 32 | 34 | 36 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y galw a ragwelir: 17.9% | 43 | 36 | 39 | 41 |
| Y galw a ragwelir: 17.9% yn cynyddu i 20.9% | 43 (17.9%) | 38 (18.9%) | 43 (19.9%) | 48 (20.9%) |

83. Mae pob senario yn nhabl 3 yn ystyried y boblogaeth cyn ysgol hysbys ym mhob carfan yn yr ardal. Byddai unrhyw gynnydd yng nghanran a nifer y plant a dderbynnir i addysg cyfrwng Cymraeg yn arwain at ostyngiad cymharol yn nifer y plant a dderbynnir i ysgolion cyfrwng Saesneg.

84. Er bod Ysgol Mynydd Bychan yn derbyn hyd at 30 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn er mwyn gallu trefnu dosbarthiadau'n effeithlon, capasiti'r ysgol yn y safle presennol yw 192 o leoedd (18 lle yn llai na'r 210 lle ar gyfer ysgol 1DM).

85. Gallai ehangu Ysgol Mynydd Bychan i 2DdM ar unwaith, mewn cyfnod pan fydd poblogaethau disgyblion cynradd lleol yn lleihau, fod yn risg sylweddol i gynnal twf ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg lleol eraill. Pe bai Ysgol Mynydd Bychan yn derbyn mwy na 45 o ddisgyblion, ond nid nifer sy'n agos at 60 o ddisgyblion, byddai hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i greu strwythur dosbarth effeithlon a gallai gael effaith negyddol ar allu'r ysgol i fantoli ei chyllideb.

86. Byddai ehangu Ysgol Mynydd Bychan yn 1.5DM yn y lle cyntaf yn darparu nifer priodol o leoedd i ateb y galw gan gadw'r effaith ar ysgolion cyfrwng Cymraeg cyfagos gyn lleied â phosibl, a byddai'n galluogi gweithredu strwythur dosbarth effeithlon wrth i'r ysgol dyfu. Byddai cyfnod diweddarach o ehangu yn 2DM yn cynorthwyo'r Cyngor i wneud cynnydd tuag at dargedau Cymraeg 2050.

87. Byddai cynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Mynydd Bychan yn:

- ateb y galw am leoedd o'r gymuned leol
- cefnogi twf cynaliadwy addysg Cyfrwng Cymraeg yn unol â dyheadau Cymraeg 2050
- caniatáu i fwy o blant elwa o'r addysg sydd ar gael yn yr ysgol
- darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion a staff
- cefnogi'r ysgol i gynnal a pharhau i adeiladu ar ei safonau rhagorol wrth i'r cwricwlwm newydd yng Nghymru gael ei gyflwyno

**Dewisiadau Ehangu**

88. Nid yw'n bosibl ehangu darpariaeth ar safle presennol Ysgol Mynydd Bychan oherwydd cyfyngiadau ar y safle.

89. Fodd bynnag, mae nifer o ysgolion cynradd yn agos at Ysgol Mynydd Bychan.

90. Mae Tabl 4 dros y dudalen yn nodi manylion yr ysgol hon a'r pellteroedd rhwng safleoedd yr ysgol yn seiliedig ar lwybrau cerdded diogel (milltiroedd).

**Tabl 4: Pellteroedd rhwng safleoedd ysgol yn seiliedig ar lwybrau cerdded diogel (milltiroedd)**

| Ysgolion cynradd | Ysgol Mynydd Bychan | Ysgol Gynradd Allensbank | Ysgol Gynradd Gladstone | Ysgol Gynradd Albany | Ysgol Gynradd Santes Monica'r Eglwys yng Nghymru |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Mynydd Bychan | Dd/B | 0.22 | 0.41 | 1.16 | 0.48 |
| Ysgol Gynradd Allensbank | 0.22 | Dd/B | 0.44 | 1.19 | 0.5 |
| Ysgol Gynradd Gladstone | 0.41 | 0.44 | Dd/B | 0.82 | 0 |
| Ysgol Gynradd Albany | 1.16 | 1.19 | 0.82 | Dd/B | 0.76 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fonica | 0.48 | 0.5 | 0 | 0.76 | Dd/B |

91. Mae'r Cyngor wedi ymchwilio i opsiynau safle amgen a allai fod ar gael ac sydd mewn lleoliadau canolog yn nalgylch Ysgol Mynydd Bychan.

92. Nid oes safle gwag addas ar gael a allai gynnwys Ysgol Mynydd Bychan wedi'i hehangu. At hynny, mae digon o gapasiti yn yr ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd i alluogi ad-drefnu'r ddarpariaeth bresennol. Byddai ad-drefnu yn ffordd briodol o gydbwyso'r cyflenwad a'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg yn yr ardal, a byddai'n ffordd effeithiol ac effeithlon o ddefnyddio adnoddau.

**Tymor Byr**

93. Mae capasiti dros ben mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn yr ardal, a rhagwelir y bydd nifer y lleoedd gwag yn cynyddu.

94. Byddai gweithredu trefniant safle a rennir ar gyfer Ysgol Mynydd Bychan yn y lle cyntaf yn cyfyngu ar yr effaith ar bob ysgol ac yn cynnig ateb lleol priodol.

95. Ysgol Gynradd Allensbank yw'r safle ysgol agosaf at safle Ysgol Mynydd Bychan, 0.3 milltir oddi wrth Ysgol Mynydd Bychan. Yn Ysgol Allensbank hefyd y mae’r lefel uchaf o leoedd gwag, a'r nifer fwyaf o ystafelloedd dosbarth dros ben ar y cyfan, nad ydynt yn cael eu defnyddio fel canolfannau dosbarth. Mae Ysgol Gynradd Allensbank hefyd mewn lleoliad da ar gyfer teuluoedd sydd wedi cofrestru yn Ysgol Mynydd Bychan neu sy'n gwneud cais i gael eu derbyn iddi gan fod llawer o'r plant hyn yn byw yn rhan ogleddol ei dalgylch.

96. Er bod ystafelloedd dosbarth nad ydynt yn cael eu defnyddio fel canolfannau dosbarth hefyd yn y safle a rennir gan Ysgol Gladstone ac Ysgol y Santes Fonica, mae'r ysgol ymhellach oddi wrth safle Ysgol Mynydd Bychan (0.5 milltir). Mae gan Ysgol Gynradd Gladstone adeilad 'Boathouse' ar wahân ond ni ddefnyddir hwn ar gyfer addysg ystafell ddosbarth ar hyn o bryd a byddai angen buddsoddiad i'w uwchraddio at y diben hwn. Mae Ysgol Gynradd Albany 1.16 milltir o Ysgol Mynydd Bychan ac ychydig o leoedd gwag sydd ganddi yn gyffredinol.

97. Mae Tabl 5 isod yn nodi manylion nifer y plant oedd ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Allensbank rhwng 2016 a 2020. Ym mis Ionawr 2020, roedd 185 o ddisgyblion ar y gofrestr, o gymharu ag uchafswm capasiti yn adeiladau'r ysgol, sydd hyd at 420 o ddisgyblion.

**Tabl 5: Nifer y Disgyblion ar y Gofrestr yn Ysgol Gynradd Allensbank 2015 - 2019**

| | Derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ion-16 | 40 | 32 | 45 | 35 | 38 | 27 | 29 |
| Ion-17 | 24 | 48 | 30 | 43 | 37 | 29 | 22 |
| Ion-18 | 25 | 25 | 36 | 26 | 39 | 29 | 22 |
| Ion -19 | 30 | 26 | 25 | 34 | 30 | 33 | 26 |
| Ion -20 | 19 | 27 | 25 | 26 | 30 | 27 | 31 |

98. Rhagwelir y bydd y lefel uchel y lleoedd gwag dros ben yn Ysgol Gynradd Allensbank yn parhau. Nid oes data ar gael i awgrymu y bydd nifer y disgyblion sy'n cofrestru yn Ysgol Gynradd Allensbank yn cymryd mwy na 210 lle yn y dyfodol.

99. Lle mae nifer y lleoedd mewn ysgolion yn uwch na'r angen, gellid defnyddio adnoddau sy'n cael eu defnyddio'n aneffeithlon yn well i wella ansawdd addysg pob dysgwr.

100. Ynghyd â hyn mae'r anawsterau sy'n gysylltiedig â gweithredu ysgol gynradd gyda chyfran uchel o'i lleoedd heb eu llenwi. Mae maint yr ysgol a'r nifer isel o blant sydd ar y gofrestr yn golygu y bydd yr ysgol yn anochel yn wynebu anawsterau ariannol.

101. Byddai ad-drefnu darpariaeth yn arwain at greu darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg ychwanegol gan gadw nifer briodol o leoedd cyfrwng Saesneg i ateb y galw yn yr ardal yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth a phatrymau defnydd hanesyddol.

102. Byddai lleoliad Ysgol Allensbank, lefel y lleoedd dros ben, a chynllun y safle yn caniatáu i'r derbyniadau i Ysgol Mynydd Bychan gynyddu a byddai Ysgol Mynydd Bychan yn gweithredu rhwng ei safle presennol a’r adeiladau a rennir ar safle Ysgol Gynradd Allensbank.

103. Byddai gosod nifer y lleoedd yn Allensbank yn 210 (Nifer Derbyn Gyhoeddedig yn 30 lle yn y Dosbarth Derbyn) yn caniatáu ehangu Ysgol Mynydd Bychan yn 315 lle (Nifer Derbyn Gyhoeddedig yn 45 lle yn y Dosbarth Derbyn) o fis Medi 2022.

104. Nid yw gosod nifer lai o leoedd yn Ysgol Gynradd Allensbank yn destun gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru gan y byddai'r capasiti arfaethedig yn fwy na'r nifer uchaf o ddisgyblion a fu ar gofrestr yr ysgol ar unrhyw adeg yn ystod y ddwy flynedd flaenorol cyn cyhoeddi'r cynnig.

105. Mae'r Cod Derbyn i Ysgolion yn caniatáu cynyddu Nifer Derbyn ysgol os oes prinder dros dro o fath penodol o ddarpariaeth mewn ardal, ac mae’n dyfynnu addysg cyfrwng Cymraeg fel enghraifft, tra caiff darpariaeth ychwanegol ei sefydlu.

106. Gellid cynyddu Nifer Derbyn Ysgol Mynydd Bychan i 45 le ar gyfer y garfan sy'n dechrau yn y Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2021. Fodd bynnag, ni ellid ehangu Ysgol Mynydd Bychan i letya mwy na 240 o blant oedran cynradd heb gyhoeddi cynnig i ehangu'r ysgol yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

107. Daw rownd gyntaf y ceisiadau am lefydd yn y flwyddyn dderbyn ym mis Medi 2021 i ben ar 12 Ionawr 2021. Adolygir yn barhaus nifer y ceisiadau am leoedd cyfrwng Cymraeg yn y Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2021, o’i chymharu â nifer y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu'r ardal ehangach, ac ystyrid gweithredu Nifer Derbyn o 45 lle yn Ysgol Mynydd Bychan o fis Medi 2021 os yw'n briodol ac yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion.

**Ateb hirdymor**

108. Cyflwynodd y Cyngor gais am grant cyfalaf i Lywodraeth Cymru er mwyn ad-drefnu'r ddarpariaeth gynradd yn ardal canol Caerdydd ac ehangu nifer y lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg gan 1DM.

109. Mae'r Cyngor ym ymrwymo i weithredu'r cynnydd hwn. Mae ehangu Ysgol Mynydd Bychan gan 0.5DM yn y lle cyntaf yn cynrychioli cam cychwynnol y cynnydd tuag at hyn.

110. Byddai ymgysylltu â'r ysgolion, y rhieni a'r gymuned ehangach ar destun ateb hirdymor a ffefrir fel rhan o'r ymgynghoriad statudol ar y bwriad i ehangu Ysgol Mynydd Bychan, yn caniatáu i farn rhanddeiliaid lunio cynigion a fyddai'n darparu cydbwysedd priodol o leoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg i wasanaethu'r ardal.

111. Dylai unrhyw ateb hirdymor geisio cyflawni'r canlynol:

- Lleihau nifer y lleoedd gwag cyfrwng Saesneg sydd dros ben i wasanaethu dalgylchoedd cyfun Allensbank, Albany a Gladstone
- Ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu dalgylch presennol Ysgol Mynydd Bychan i 2 ddosbarth mynediad.
- Rhoi mwy o sicrwydd a sefydlogrwydd i staff arwain, rheoli, addysgu a chymorth, i gefnogi ffocws parhaus ar safonau addysgu a chanlyniadau gwell i ddisgyblion
- Galluogi buddsoddi mewn adeiladau ysgol i wella'r amgylchedd dysgu.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol**

112. Mae dosbarth ymyrraeth gynnar Lleferydd ac Iaith yn Ysgol Gynradd Allensbank. Mae'r dosbarth yn derbyn hyd at 8 o blant Cyfnod Sylfaen nad oeddent yn gwneud cynnydd digonol, ond sydd â digon o botensial i ddychwelyd i'w hysgol brif ffrwd leol.

113. Mae'r lleoliadau yn para rhwng 1-3 blynedd, yn dibynnu ar eu cynnydd. Mae'r disgyblion yn cael eu cofrestru'n ddeuol yn eu hysgol leol, ac yn cael cefnogaeth i ddychwelyd ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleliad. Mae disgyblion yn parhau i fynychu eu hysgol leol o leiaf diwrnod yr wythnos, er mwyn cadw cyswllt gyda ffrindiau lleol a pharatoi at ddychwelyd yno'n llawn amser.

114. Nid oes unrhyw gynlluniau i newid y ddarpariaeth hon.

**Darpariaeth Feithrin**

115. Mae gan blant Caerdydd yr hawl ar le meithrin rhan amser o ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed a rhaid iddynt ei fynychu am bum hanner diwrnod. Nid yw lleoedd meithrin yn cael eu dyrannu ar sail dalgylch. Lle bynnag y bo modd, cynigir lleoedd mewn ysgol gymunedol leol neu ddosbarth meithrin o fewn dwy filltir o breswylfa plentyn. Os nad oes lleoedd ar gael mewn ysgolion meithrin cymunedol lleol neu ddosbarthiadau meithrin, gall rhieni wneud cais am gyllid lleoedd addysg feithrin gyda darparwr cymeradwy y mae'n rhaid iddo ddangos ei fod yn gallu bodloni'r ansawdd perthnasol

116. Nid oes unrhyw newidiadau wedi'u cynllunio i ddarparu lleoedd addysg feithrin sy'n deillio o'r adroddiad hwn. Mae nifer y lleoedd meithrin a ddarperir ym mhob ardal yn cael eu hadolygu a'u haddasu'n barhaus i adlewyrchu'r galw lleol.

**Trefniadau derbyn**

117. Mae'r newidiadau perthnasol i bolisi'r Cyngor ar dderbyn plant i ysgolion o ganlyniad i'r cynigion hyn yn ymwneud â'r newidiadau arfaethedig yn Nifer Derbyn Cyhoeddedig Ysgol Mynydd Bychan, o 30 i 45, ac Ysgol Gynradd Allensbank o 45 i 30.

118. Cynhelir ymgynghoriad ar drefniadau derbyn 2022/23 ar gyfer ysgolion cymunedol rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Ionawr 2021 yn unol â gofynion y Cod Derbyn. Byddai'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys y newidiadau arfaethedig yn y Niferoedd Derbyn Cyhoeddedig.

119. Mae gwybodaeth fanwl ynghylch trefniadau derbyn wedi ei chynnwys yn llyfryn Derbyn i Ysgolion y Cyngor, ac mae'r wybodaeth yma i'w gweld hefyd ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk).

**Goblygiadau ar gyfer darpariaeth ysgolion uwchradd**

120. Mae'r galw cyfunol ar draws dalgylchoedd y tair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ar lefel uchel a gellir ateb y galw o fewn capasiti presennol yr ysgolion.

121. Bydd y Cyngor yn ymgynghori ar ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer y cyfnod 2022 - 2030 yn 2021. Bydd cynigion i ymateb i newidiadau yn y galw yn cael eu cyflwyno mewn da bryd i sicrhau bod digon o leoedd i ateb y galw am leoedd cyfrwng Cymraeg.

122. Mae cynnig i gynyddu gallu Ysgol Uwchradd Cathays i ateb y galw yn ei dalgylch a'r ardal ehangach yn rhan o Raglen Ysgolion y 21ain Ganrif ac mae'n destun adroddiad cabinet ar wahân i'w ystyried ym mis Rhagfyr 2020.

**Ymgynghoriad Aelodau Lleol (lle bo hynny'n briodol)**

123. Ymgynghorwyd ag Aelodau Lleol Cathays, Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd ar destun y cynnig. Mae Aelodau wedi cael eu briffio am yr angen lleoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol i wasanaethu'r ardal, alinio'r cynnig â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, ac effaith bosibl y cynigion ar ysgolion lleol.

**Rhesymau dros yr Argymhellion**

124. Cydbwyso'r ddarpariaeth ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.

**Effaith y cynnig ar y Gymraeg**

125. Rhagwelir y bydd effaith gadarnhaol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynigion hyn.

126. Mae'r cynigion a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn ceisio bod yn gyson â Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog ac yn cefnogi'n gryf strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg drwy gyfrannu at gyflawni'r targedau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050.

127. Mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n agos ac yn adeiladol gyda phartneriaid ar ei Fforwm Addysg Gymraeg, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau meithrin, cynradd, uwchradd ac addysg bellach, gofal plant,

RhAG a Llywodraeth Cymru. Mae’r Fforwm hwn yn cyflwyno gwybodaeth ar gyfer cynllunio lleoedd cyfrwng Cymraeg, er mwyn parhau i sbarduno cynllun y Cyngor i gynyddu mewn modd cynaliadwy niferoedd y dysgwyr mewn ysgolion Cymraeg a’r rhai sy’n dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

128. Mae'r Cyngor, a'i bartneriaid ar y Fforwm Addysg Gymraeg, wedi ymrwymo i sbarduno cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, i fwrw'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd, ac i fwrw'r targedau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

129. Mae’r Cyngor yn parhau i fonitro cyfraddau geni, y boblogaeth sy’n debygol o ddeillio o dai newydd a’r patrymau o ran nifer y plant sy'n mynd i ba ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg, er mwyn rhoi cynlluniau priodol ar waith i fodloni unrhyw gynnydd mewn galw.

130. Felly, mae’n rhaid i’r Cyngor ehangu’r ddarpariaeth ysgolion mewn modd strategol ac amserol nad yw’n amharu ar y ddarpariaeth bresennol. Yn anochel, byddai darpariaeth ysgolion cynradd Cymraeg sy'n ehangu'n sylweddol neu'n gyflym yn cael effaith ar y nifer sy'n manteisio ar leoedd mewn ysgolion eraill ac, yn eu tro, ar allu ysgolion i gydbwyso cyllidebau ac i ddenu neu gadw staff.

131. Mae dyheadau'r Cyngor ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, a Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, yn cynnig newid sylweddol. Mae Cymraeg 2050 yn gosod targedau cenedlaethol ar gyfer addysgu 40% o ddysgwyr mewn ysgolion Cymraeg, a 30% arall o ddysgwyr i gael eu haddysgu mewn ysgolion Saesneg fel eu bod yn dod yn rhugl yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae tua 17% o blant Caerdydd sy'n dechrau addysg gynradd yn cael eu haddysgu mewn ysgolion neu ddosbarthiadau Cymraeg.

132. Mae'r cynnig hwn yn ceisio cynyddu nifer y lleoedd ysgolion cynradd Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal, ac yn ceisio gweithredu'r newid yn y fath fodd fel y cyfyngir ar y potensial i gael effaith negyddol ar ysgolion sy’n bod eisoes.

133. Mae risg y gallai darparu lleoedd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ychwanegol ar safle'r ysgol newydd lesteirio'r twf mewn ysgolion lleol eraill. Bwriedir lliniaru'r effaith hon drwy weithredu cynnydd graddol yn y ddarpariaeth.

134. Bydd cynnig 105 lle ysgol Cymraeg ychwanegol yn Ysgol Mynydd Bychan yn golygu y byddai cyfran gyffredinol y lleoedd Cymraeg ar draws y ddinas yn cynyddu’n raddol ac mewn modd cynaliadwy.

**Trefniadau Teithio Dysgwyr**

135. Nid oes cynlluniau i newid polisi trafnidiaeth y Cyngor ar gyfer plant ysgol.

136. Bydd unrhyw ddisgyblion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnyn nhw’n cael yr un cymorth â thrafnidiaeth ag a gaiff pawb trwy Gaerdydd ac yn unol â’r un meini prawf sy’n berthnasol ledled Caerdydd.

137. Gellir gweld polisi trafnidiaeth y Cyngor ar gyfer plant ysgol ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk/trafnidiaethiysgolion.

**Goblygiadau Ariannol**

138. Mae'r argymhellion ar gyfer yr adroddiad hwn yn gofyn am gymeradwyaeth i gynnal proses ymgynghori mewn perthynas â chynnydd arfaethedig yn nifer y lleoedd yn Ysgol Mynydd Bychan, gan roi’r cynnydd yn y nifer yn y lle sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Allensbank. Pe bai'r cynllun yn cael ei ddatblygu, byddai angen i unrhyw gostau cyfalaf sy'n codi, drwy'r angen i wneud addasiadau ar safle Allensbank, gael eu hariannu drwy'r dyraniad grant Cyfrwng Cymraeg y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn yr adroddiad hwn. Mae'r argymhellion hefyd yn amlinellu ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid arfaethedig ynghylch adolygiad ehangach ar gydbwysedd lleoedd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn yr ardal. Bydd unrhyw gynigion yn y dyfodol sy'n deillio o'r ymarfer hwnnw yn gofyn am werthusiad ariannol llawn a bydd angen nodi'r cyllid cyfalaf angenrheidiol cyn y gall unrhyw gynlluniau symud ymlaen.

139. O ran goblygiadau refeniw, bydd angen talu'r adnoddau y mae eu hangen i ariannu'r lleoedd ychwanegol yn Ysgol Mynydd Bychan o’r gyllideb ysgolion ddirprwyedig bresennol. Fel y noda'r adroddiad hwn, rhagwelir gostyngiad cyffredinol yn y niferoedd yn y cyfnod cynradd ac, felly, dylai'r lleoedd ychwanegol fod yn fforddiadwy o fewn y gyllideb gyffredinol bresennol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod yr effaith ar ysgolion cyfagos, y gallai niferoedd eu disgyblion leihau o ganlyniad i'r ehangu hwn, yn cael ei monitro'n ofalus a bod unrhyw effeithiau ariannol yn cael eu rhagweld a'u rheoli, fel sy'n briodol. Yn ogystal â'r cyllid sy'n uniongyrchol ofynnol ar gyfer y lleoedd ychwanegol, bydd hefyd angen nodi unrhyw ofynion trafnidiaeth ychwanegol. Os oes angen darpariaeth trafnidiaeth ychwanegol, bydd angen cynnwys hyn yn y gyllideb Trafnidiaeth Ysgol bresennol.

140. Bydd angen ystyried goblygiadau refeniw'r adolygiad ehangach r leoedd disgyblion yn yr ardal unwaith y bydd yr ymarfer ymgysylltu wedi dod i ben a phenderfynwyd ar opsiynau. Bydd yn bwysig bod y cynigion yn sicrhau bod capasiti dros ben yn cael ei gadw i lefel briodol ac nad yw hyfywedd ariannol ysgolion unigol yn cael ei beryglu. Ar y sail y rhagwelir ar hyn o bryd y bydd niferoedd cyffredinol y disgyblion yn gostwng, ni ddylai fod angen cyllid refeniw ychwanegol i ddiwallu nifer y lleoedd a gynigir, ond bydd angen ystyried y ffordd y bydd newid sefydliadol posibl mewn ysgolion yn cael ei weithredu, gyda'r nod o leihau'r risg y gallai unrhyw ysgol unigol fynd i ddiffyg ariannol.

**Goblygiadau Cyfreithiol (gan gynnwys Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb lle bo hynny'n briodol)**

141. O dan Ddeddf Addysg 1996, mae dyletswydd cyffredinol statudol ar y Cyngor i hyrwyddo safonau addysg uchel ac i gynnig digon o lefydd ysgol i ddisgyblion o oedran ysgol.Mae gan rieni hawl i fynegi eu bod yn ffafrio ysgol y dymunent i'w plentyn ei mynychu o dan adran 86 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, ond nid yw hyn yn rhoi hawl i fynychu ysgol benodol, gan y gellir gwrthod ceisiadau o hyd lle byddai hyn yn rhagfarnu'r ddarpariaeth addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon.

142. Gall awdurdod lleol wneud cynigion trefniadaeth ysgolion, gan gynnwys gwneud 'addasiadau a reoleiddir' i ysgol gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir o dan adrannau 42-44 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae'r cynigion a nodir yn yr adroddiad yn gyfystyr â 'newidiadau a reoleiddir' a rhaid eu hystyried gan roi sylw i ddarpariaethau Deddf 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, sy'n nodi ffactorau i'w hystyried mewn perthynas â gwahanol gynigion, y gweithdrefnau statudol, y gofynion a'r canllawiau cyfreithiol.

143. Pan gynigir cynnydd yng nghapasiti ysgol, rhaid i'r Cyngor ystyried tystiolaeth o angen/galw presennol neu yn y dyfodol yn yr ardal am leoedd ychwanegol, gan gyfeirio at gategori iaith yr ysgol (a chymeriad crefyddol / y rhyw a dderbynnir os yw'n berthnasol). Yn achos darpariaeth cyfrwng Cymraeg byddai hyn yn cynnwys asesiad o'r galw am addysg Cyfrwng Cymraeg (a gynhelir yn unol ag unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 86 Deddf 2013). Rhaid ystyried hefyd a fydd y cynigion yn gwella mynediad i ddisgyblion anabl yn unol â'r gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

144. Cyn cyhoeddi ei gynigion, mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal ymgynghoriad ar ei gynigion yn unol ag adran 48 y ddeddf honno a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Mae'r argymelliadau'n ceisio awdurdod i gynnal yr ymgynghoriad statudol hwnnw.

145. Mae cyfraith achosion wedi sefydlu y dylai'r broses ymgynghori:

(i) gael ei chynnal pan fydd cynigion yn dal i fod ar gam ffurfiannol;
(ii) cynnwys digon o resymau a gwybodaeth am gynigion penodol i alluogi ystyriaeth ac ymateb deallus;
(iii) rhaid rhoi digon o amser i ystyried ac ymateb; a
(iv) rhaid ystyried canlyniad yr ymgynghoriad yn gydwybodol wrth gwblhau'r penderfyniad.

146. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi gofynion a chanllawiau manwl pellach mewn perthynas â'r ymgynghoriad statudol, gan gynnwys y gofyniad i gyhoeddi dogfen ymgynghori (a chynnwys y ddogfen honno), cyfnod ymgynghori o 42 diwrnod o leiaf gan gynnwys o leiaf 20 diwrnod ysgol, a rhestr o ymgyngoreion statudol, gan gynnwys rhieni, disgyblion, cyrff llywodraethu, cyrff crefyddol, Gweinidogion Cymru ac Estyn. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad ymgynghori, sy'n nodi'r materion a godwyd gan ymgyngoreion a'i ymateb i'r materion hynny. Bryd hynny, caiff adroddiad pellach ei gyflwyno i'r Cabinet i benderfynu sut i fwrw ymlaen.

147. Bydd y cynigion mewn perthynas â defnyddio'r tir a'r adeiladau ar safle Ysgol Gynradd Allensbank yn amodol ar gytundeb gan gorff llywodraethu'r ysgol ac unrhyw delerau ac amodau cysylltiedig.

148. Os eir â'r cynigion yn eu blaen, bydd gofyn pennu'r trefniadau derbyn, yn cynnwys y niferoedd derbyn a'r dalgylchoedd, yn dilyn ymgynghoriad, yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion a'r Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006.

149. Wrth ystyried y cynigion, rhaid i'r Cyngor barchu ei ddyletswyddau cyfle cyfartal sector gyhoeddus o dan Deddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau penodol i'r sector gyhoeddus yng Nghymru). Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol hyn, rhaid i Gynghorau wrth wneud penderfyniadau dalu sylw dyledus i'r angen i (1) waredu gwahaniaethu anghyfreithlon, (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasoedd da ar sail nodweddion a ddiogelir. Y nodweddion a ddiogelir yw: oed, ailbennu rhywedd, rhyw, hil – gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol • Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred. Dylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i nodi'r goblygiadau o ran cydraddoldeb a dylid rhoi sylw dyledus i ganlyniadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

150. Rhaid i'r Cyngor fod yn ystyriol hefyd o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg ac ystyried effaith ei gynigion ar y Gymraeg. Dylai'r cynnig cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg gael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg a chefnogi nodau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg cymeradwy'r Cyngor a Strategaeth Ddwyieithog Caerdydd.

151. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn bod y Cyngor yn ystyried sut bydd y cynigion yn cyfrannu at fodloni ei hamcanion llesiant (a nodir yn y Cynllun Corfforaethol). Rhaid i aelodau fod yn fodlon hefyd bod y cynigion yn cydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n ei gwneud yn ofynnol i anghenion y presennol gael eu bodloni heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu anghenion eu hunain.

152. Bydd cyngor cyfreithiol pellach yn cael ei gynnig wrth i gynigion gael eu datblygu.

**<u>Goblygiadau AD</u>**

153. Mae'r cynigion yn yr adroddiad hwn yn cynrychioli cynyddu maint Ysgol Mynydd Bychan. Bydd angen i'r Corff Llywodraethu a'r uwch dîm arwain gynllunio ar gyfer yr ehangu hwn, gan sicrhau bod eu strwythur staffio yn ddigonol i fynd i'r afael â hyn. Bydd y Gwasanaethau Pobl Adnoddau Dynol yn darparu cymorth gyda hyn a bydd unrhyw swyddi gwag sy'n codi yn cynnig cyfleoedd adleoli posibl yn unol â'r Polisi Adleoli a Diswyddo'r Ysgol.

154. Yn yr un modd, bydd y cynnig i leihau Nifer Derbyn Cyhoeddedig Ysgol Gynradd Allensbank i 30 (1DM) o 45 (1.5DM) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu a'r Uwch Dîm Arwain werthuso effaith y gostyngiad arfaethedig ar eu gofynion staffio yn y dyfodol. Gall hyn gynnwys ymgymryd â chynllunio gweithlu priodol i adolygu swyddi pan ddônt yn wag, neu werthuso opsiynau hyfforddi. Os yw'r Corff Llywodraethu yn ei gwneud yn ofynnol i leihau nifer gyffredinol y staff, yna'r gobaith yw y gellid cyflawni hyn drwy ddulliau gwirfoddol lle bynnag y bo modd.

155. Lle na ellir rheoli hyn drwy ddulliau gwirfoddol na thrwy gynllunio'r gweithlu, bydd angen ei reoli yn unol â Pholisi Adleoli a Diswyddo'r Ysgol, sydd wedi'i fabwysiadu gan gorff llywodraethu'r ysgol. Bydd Gwasanaethau Pobl AD yn gweithio gyda'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu i ddarparu cymorth yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys drwy hwyluso'r broses adleoli.

156. Bydd hefyd angen asesu a oes unrhyw ofynion staffio penodol mewn perthynas â gweithrediad Ysgol Mynydd Bychan ar draws dau safle ysgol ac unrhyw effaith gysylltiedig ar Ysgol Gynradd Allensbank. Bydd y Gwasanaeth Pobl AD yn darparu cymorth mewn perthynas â'r trafodaethau hyn wrth i'r prosiect ddatblygu.

157. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnig ymgysylltu â rhanddeiliaid o ran ateb tymor hwy. Bydd angen asesu unrhyw gynigion a ystyrir fel rhan o hyn ar wahân ar gyfer y goblygiadau Adnoddau Dynol. Bydd y Gwasanaethau Pobl AD yn cynnal trafodaethau cynnar â rhanddeiliaid ynglŷn â'u barn er mwyn cefnogi'r broses ymgysylltu hon.

**<u>Goblygiadau Eiddo</u>**

158. Bydd Ystadau Strategol yn cefnogi'r tîm Addysg ar reoli asedau ac unrhyw faterion tir sydd eu hangen yn y dyfodol fel rhan o'r broses ymgynghori neu o ganlyniad i'r ymgynghoriad lle bydd angen trafodiad tir.

159. Os oes unrhyw drafodion tir, trafodaethau neu brisiadau sy'n ofynnol i gyflawni unrhyw gynigion, dylid gwneud hynny yn unol â phroses Rheoli Asedau'r Cyngor ac mewn ymgynghoriad ag Ystadau Strategol a meysydd gwasanaeth perthnasol.

**<u>Goblygiadau Traffig a Thrafnidiaeth</u>**

160. Mae Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol Gynradd Allensbank yn gweithredu ar safleoedd cyfyngedig. Mae pob safle'n cael problemau gyda thraffig a pharcio yn ystod amseroedd gollwng y bore ac amseroedd codi yn y prynhawn.

161. Yn ddiweddar, cyflwynodd y Cyngor gamerâu gorfodi cylch cyfyng yn Stryd Llanisien y tu allan i Ysgol Gynradd Allensbank i orfodi lle mae marciau Cadwch yn Glir igam ogam.

162. Cyflwynwyd cau ffordd dros dro, wedi'i staffio, y tu allan i Ysgol Mynydd Bychan ar Heol Canada pan ail-agorodd ysgolion yn haf 2020 ar ôl y cyfnod cloi. Roedd hyn er mwyn cyfyngu ar fynediad i gerbydau ger yr ysgol er mwyn rhoi lle diogel ar gyfer ymbellhau cymdeithasol.

163. Ers i ysgolion ailagor ym mis Medi 2020, codwyd pryderon gan rieni ac aelodau wardiau ynghylch traffig a pharcio y tu allan i Ysgol Bychan Mynydd ar Heol Seland Newydd. Mae swyddogion yn bwriadu ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru i greu Stryd Ysgol ar Heol Seland Newydd a fyddai'n cyfyngu mynediad i gerbydau ar hyd y stryd i breswylwyr, deiliaid bathodynnau glas a deiliaid trwyddedau awdurdodedig yn unig yn ystod amseroedd gollwng a chasglu. Byddai hyn yn gwneud yr amgylchedd y tu allan i'r ysgol yn fwy diogel ac yn fwy ffafriol i gerdded a beicio.

164. Mae ehangu capasiti yn Ysgol Mynydd Bychan a'r materion traffig a pharcio yn Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol Gynradd Allensbank y cyfeirir atynt uchod yn tanlinellu'r angen i gyflwyno mesurau sy'n annog pobl i beidio â theithio mewn car ac yn hyrwyddo teithio llesol i safleoedd y ddwy ysgol. Un mesur o'r fath yw cyflwyno Stryd Ysgol. Mae cynlluniau eisoes yn cael eu datblygu i wneud Heol Seland Newydd yn Stryd Ysgol. Mae potensial hefyd i wneud hyn ar ran o Stryd Llanisien. Fodd bynnag, bydd y ddau gynnig yn gofyn am ymgynghori â thrigolion a busnesau lleol.

165. Offeryn arall yw datblygu a gweithredu Cynllun Teithio Llesol i'r Ysgol. Mae'r cyngor wedi ymrwymo i sicrhau fod gan bob ysgol yng Nghaerdydd Gynllun Teithio llesol erbyn 2022. Mae cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol a bydd hefyd yn nodi unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol.

166. Bydd gofyn bod gan bob ysgol (yn cynnwys y rhai sydd wedi eu haildrefnu) gynllun o'r dechrau. Gall swyddogion Cynlluniau Teithio Llesol y Cyngor gynorthwyo datblygiad y Cynlluniau Teithio Llesol a gallant gynorthwyo gydag ymgysylltu â'r Cynlluniau Teithio Llesol fel rhan o waith gweithredu'r cynnig ehangu lleoedd.

167. Mae Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd y Cyngor eisoes yn darparu rhaglen o hyfforddiant beicio a hyfforddiant i gerddwyr i annog pobl i fanteisio ymhellach ar deithio llesol i'r ysgol. Bydd y cymorth hwn yn parhau fel rhan o'r ymgysylltu a'r cymorth parhaus a ddarperir gan Dîm Teithio Llesol Ysgolion y Cyngor ar ddatblygu a darparu Cynlluniau Teithio Llesol.

168. Mae'r Cyngor wedi datblygu cynigion ar gyfer llwybr beicio ar wahân ar hyd Allensbank Road. Bydd hyn yn darparu cysylltiad beicio diogel â Stryd Llanisien y gallai disgyblion sy'n teithio i Ysgol Gynradd Allensbank ei ddefnyddio.

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

169. Mae Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb cyntaf wedi'i wneud. Daeth i’r casgliad na fyddai’r newidiadau a gynigir yn effeithio’n negyddol ar unrhyw grwp penodol mewn cymdeithas. Lle nodir yr effeithir ar grwpiau penodol, nodwyd camau lliniaru. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu ar ôl yr ymgynghoriad.

170. Ceir Offeryn Sgrinio Statudol yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad 4.

**ARGYMHELLION**

Argymhellir bod y Cabinet yn awdurdodi swyddogion:

- i ymgynghori ar gynigion i gynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan o tua 0.9DM (192 o leoedd) i 1.5DM (hyd at 315 o ddisgyblion) o fis Medi 2022.

- i gynnal ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid i ffurfio cynigion a fyddai'n cael eu datblygu i ddarparu cydbwysedd priodol o leoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg i wasanaethu'r ardal.

- Sylwer y bydd yr ymgynghoriad ar y Trefniadau Derbyn ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 yn cynnwys cynnig lleihau nifer derbyn Ysgol Gynradd Allensbank o 45 i 30 o leoedd.

- Sylwer y bydd swyddogion yn dod ag adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad i gyfarfod yn y dyfodol i geisio cymeradwyaeth er mwyn bwrw ymlaen i gyhoeddi cynigion yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

<table>
<tr><td rowspan="2">UWCH SWYDDOG CYFRIFOL</td><td>Enw’r Cyfarwyddwr<br><br>Melanie Godfrey</td></tr>
<tr><td>Dyddiad cyflwyno i swyddfa’r Cabinet</td></tr>
</table>

*Atodir yr atodiadau canlynol:*

*Rhoddwyd ystyriaeth i’r papurau cefndir canlynol*

Atodiad 1 – Map dalgylch cyfrwng Cymraeg
Atodiad 2 – Map dalgylch cyfrwng Saesneg
Atodiad 3 – Data Nifer ar Gofrestr yr Ysgol
Atodiad 4 – Offeryn Sgrinio Statudol